**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **13 Tachwedd 2002** |
| **Lleoliad:** | |
| **Teitl:** | **Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 - Ymgynghoriad ar Ymrwymiad Tlodi Tanwydd Cymru** |

**Diben**

1. Ystyried yr Ymgynghoriad ar Ymrwymiad Tlodi Tanwydd Cymru (atodiad 1), sy'n anelu at fodloni gofynion Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 trwy roi Strategaeth ar waith, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i waredu achosion o dlodi tanwydd yng Nghymru.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. O dan amodau Rheol Sefydlog 9.7, mae cyfrifoldeb ar bob un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad i gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad yn y meysydd y mae Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad yn atebol amdanynt, ac i adolygu'n barhaus y gwariant a'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisïau.

**Cefndir**

3. Yn ôl diffiniad Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni, ystyrir bod person yn byw "mewn tlodi tanwydd" os yw'n aelod o deulu incwm isel, ac yn byw mewn cartref na ellid ei gadw'n gynnes am gost resymol. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi a gweithredu strategaeth i leihau achosion o dlodi tanwydd, gan restru'n benodol yr hyn y dylai'r Cynulliad ei wneud, sef:

- dweud beth yn union a olygir gan 'incwm isel'; ‘cost resymol’; a bod yn gynnes; neu roi diffiniad amgen;
- ymgynghori â phersonau neu sefydliadau sy’n cynrychioli buddiannau'r rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd;
- cyhoeddi strategaeth erbyn 31 Mawrth 2003 sy'n gosod polisïau'r Cynulliad ar

gyfer gwaredu tlodi tanwydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;

- o bryd i'w gilydd asesu effaith y strategaeth a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a chwrdd â'r dyddiadau targed; a
- cyhoeddi'r newidiadau i'r strategaeth a gyhoeddwyd.

Mae'r ddogfen ymgynghori (atodiad 1) yn cynrychioli cynigion Llywodraeth y Cynulliad i fodloni gofynion y Ddeddf.

4. Mae'r adrannau dilynol o'r ddogfen o ddiddordeb arbennig:

- Pennod 2 – The Scale and Definition of Fuel Poverty, sy'n nodi yr hyn rydym yn ei wybod am y broblem yng Nghymru ar hyn o bryd, ein cynlluniau i gael mwy o wybodaeth a'n cynigion i ddiffinio tlodi tanwydd at ddibenion y Ddeddf.
- Pennod 4 – Welsh Solutions to Welsh Problems, disgrifio'r prif bolisïau sy'n anelu at daclo tlodi tanwydd yn y sectorau tai cymdeithasol a phreifat, y gwaith y mae'r cyrff cyhoeddus a phreifat yn ei wneud i gyflawni hyn, mentrau iechyd perthnasol, gweithgareddau presennol a gweithio mewn partneriaeth.
- Pennod 5 – Targets, manylion ein targedau interim a chyffredinol.
- Pennod 6 – Monitoring Progress Against the Strategy, manylion ein cynigion dros sefydlu Grwp Ymgynghori ar Dlodi Tanwydd Cymru.

**Materion i'w Hystyried**

5. Ar 29 Hydref 2002 cylchredwyd y ddogfen ar gyfer ymgynghori at bron 400 o gyrff ac unigolion â diddordeb mewn tlodi tanwydd, a cheir manylion ym Mhennod 8 o'r ddogfen. Darparwyd copi unigol hefyd i Aelodau o'r Cynulliad a bydd y ddogfen yn cael ei harddangos ar dudalennau gwe y Gyfarwyddiaeth Dai. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 21 Ionawr 2003.

6. Mae Tlodi Tanwydd eisoes yn flaenoriaeth o fewn y Cynulliad, ac mae'n un o themau'r Strategaeth Dai Genedlaethol. Hefyd, y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd (CEYC) yw prif ddull y Cynulliad o leddfu tlodi tanwydd, trwy ddarparu ystod o fesurau ar gyfer inswleiddio a chynhesu cartrefi'r rheini sy'n dioddef tlodi tanwydd, ac mae'r cymorth ar gael ar ffurf grant hyd at uchafswm o £2,700. Eleni rydym yn sicrhau bod dros £11 miliwn ar gael i CEYC ar gyfer y gwaith hwn. Rydym hefyd yn gweithio i gysylltu CEYC â mentrau eraill sy'n ymwneud â thlodi tanwydd, fel Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni y cyfleustodau cyhoeddus, sy'n ariannu mesurau tebyg i CEYC, ond sy'n targedu'r rheini nad ydynt yn bodloni holl feini

prawf cymhwyster CEYC.

7. Wrth lunio'r ymgynghoriad hwn, gwnaethom ddefnyddio llawer o'n gwaith blaenorol, sef yr hyn a welir ym Mhennod Cymru ar Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ystod mis Tachwedd 2001. Mae hyn eisoes yn ffurfio sail ar gyfer strategaeth gynhwysfawr i Gymru ac mae'n nodi mai 2010 yw'r targed ar gyfer gwaredu tlodi tanwydd yng Nghymru, cyn belled ag y bo'n ymarferol, ymysg y grwpiau sydd mewn perygl.

8. Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU yw ffrwyth gwaith y Grwp Gweinidogol ar Dlodi Tanwydd a Gweinidogion o'r DTI; DEFRA; Swyddfa'r Cabinet; Yr Adran Iechyd; Yr Adran Nawdd Cymdeithasol; Y Trysorlys a'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd y Rheoleiddiwr Ynni hefyd yn aelod o'r grwp. Nod y grwp oedd cymryd gorolwg strategol er mwyn sicrhau y cydlynir y polisïau a'r mentrau newydd hynny sy'n ymwneud â thlodi tanwydd ar draws y Llywodraeth, a'u bod yn integreiddio â gweithgareddau'r cyrff allanol perthnasol, fel y rheoleiddiwr a'r diwydiannau ynni.

## Goblygiadau Ariannol

9. Mae cyllideb CEYC bresennol y Cynulliad a'r cynlluniau i'r dyfodol yn darparu swm sy'n ddigonol i gyrraedd targed Cynllun i Gymru, sef defnyddio'r cynllun CEYC i helpu 38,000 o gartrefi sy'n dioddef tlodi tanwydd, erbyn mis Mawrth 2004. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol pellach o fewn cynlluniau gwario presennol y Cynulliad. Gellir cyflawni'r targedau tymor hir a nodir yn y Strategaeth trwy gynnal gwaelodlin cyllideb CEYC i'r dyfodol, ynghyd â chydweithio gyda mentrau tebyg o'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Gobeithiwn greu partneriaeth weithredol gyda'r rhain.

## Cydymffurfio

10. Mae'r strategaeth yn gwneud defnydd o ystod o bwerau'r Cynulliad er mwyn hybu cynhwysiant cymdeithasol, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd. Mae'n cynnwys materion sydd wedi'u datganoli a rhai sydd wedi'u cadw'n ôl. Wrth gytuno ar y strategaeth, mae'r Cynulliad yn arfer ei bwerau o dan y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. Mae unrhyw waith a wnaed trwy gyfrwng y Strategaeth i daclo tlodi tanwydd hefyd yn weithredol dan Adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 -sef y pwer i roi grantiau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

11. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU, ac i gyflwyno eu sylwadau.

**Y Gangen Adeiladu ac Ynni Domestig - Y Gyfarwyddiaeth Dai**